# cwmpawd

*eglwys efengylaidd gymraeg caerdydd*

Rhif 62
Mawrth - Mehefin 2011

# Golygyddol

## *Gwynn Williams*

Yn ddiweddar buom yn dathlu Gŵyl Ddewi a hefyd yn pleidleisio mewn refferendwm ynghylch cryfhau'r Cynulliad Cenedlaethol. Mae'r cyntaf yn ein hatgoffa o orffennol Cymru a'r ail yn sôn am ein presennol.

Mae dathlu Gŵyl Ddewi yn ein hatgoffa o ddylanwad diymwad Cristnogaeth ar ein cenedl dros y canrifoedd. Cofiwn am y dyddiau y bu Dewi a'r seintiau eraill yn lledaenu efengyl Crist ar hyd y wlad. Cofiwn am William Morgan ac eraill yn cyfieithu'r Beibl i'n hiaith. Cofiwn am ysgolion cylchynnol Griffith Jones a'u dylanwad rhyfeddol ar werin Cymru. Cofiwn am ddylanwad pregethu Daniel Rowlands ac emynau Williams Pantycelyn. Effeithiodd y rhain i gyd yn drwm ar ein diwylliant, ein llenyddiaeth a'n holl ffordd o fyw, yn ogystal wrth gwrs â bod yn gyfrwng i gadw'r iaith yn fyw.

Darlun gwahanol iawn, ysywaeth, a gawn yn y presennol. Nid egwyddorion Cristnogol sydd bellach yn dylanwadu ar bolisïau addysg, iechyd, na'n safonau moesol a chymdeithasol. Nid yw Arglwydd nefoedd a daear yn cael ei gydnabod yn gyffredinol yn ein gwlad bellach. Anghofiasom y graig y'n naddwyd ohoni.

Cyn i rifyn nesaf y *Cwmpawd* ymddangos, byddwn wedi dathlu digwyddiadau rhyfedd Gwener y Groglith, Sul y Pasg, dydd Iau Dyrchafael a'r Sulgwyn. Dyddiau yw'r rhain, wrth gwrs, sy'n ein hatgoffa am ddigwyddiadau mawr bywyd Crist a'r eglwys. Mae Gwener y Groglith yn ein hatgoffa bod Iesu Grist wedi marw i sicrhau maddeuant i bechaduriaid ; Sul y Pasg yn ein hatgoffa o'i fuddugoliaeth dros farwolaeth a'r bedd; dydd Iau Dyrchafael yn ein hatgoffa iddo esgyn yn ôl i'r nefoedd i eistedd ar ei orsedd, yn Arglwydd pob peth; a'r Sulgwyn yn ein hatgoffa bod ei Ysbryd wedi dod i'r byd i'n cynorthwyo ni, ei eglwys, i ddwyn tystiolaeth effeithiol iddo.

Yn y digwyddiadau hyn y mae ein gobaith a'n hyder.

# Tri Perspectif

## *Emyr James*

Wrth i ni agosáu at y Pasg, mae'n dod yn boenus o amlwg – yn debyg i'r Nadolig – fod llawer o bobl yn gwbl anymwybodol o'r hyn mae'r wŷl yn ei gofio mewn gwirionedd. Ond wedyn pam y dylai gwybod beth ddigwyddodd yn Jerusalem tua 2000 o flynyddoedd yn ôl fod o unrhyw werth i ni heddiw?

I geisio ateb y cwestiwn hwn, beth am inni edrych ar yr hanes o dri phersbectif cwbl wahanol, o safbwynt tri pherson a oedd yno ar y pryd: Caiaffas yr Archoffeiriad, Pilat y rhaglaw Rhufeinig a Iesu Grist ei hun.

**Caiaffas yr Archoffeiriad**

Roedd Caiaffas ynghyd ag arweinwyr crefyddol y dydd wedi bod yn chwilio ers amser hir am ffordd i gael gwared o Iesu. Roedden nhw'n genfigennus o'r holl sylw roedd e'n ei dderbyn gan y bobl, ac wedi eu tramgwyddo gan y modd yr oedd Iesu'n gwrth-ddweud eu dysgeidiaeth nhw. Eu pryder oedd y byddai'r bobl yn dilyn Iesu, ac y byddai hynny'n amharu ar y *status quo* gyda'r Rhufeiniad, gan arwain at golli eu statws a'u hawdurdod. Ar ganol eu trafodaethau dyma Caiaffas yn codi ac yn datgan yr hyn a ddylai ddigwydd:

> *'Nid ydych yn sylweddoli mai mantais i chwi fydd i un dyn farw dros y bobl, yn hytrach na bod y genedl gyfan yn cael ei difodi.' (Ioan 11:50)*

Yr hyn roedd e'n ei feddwl oedd y byddai lladd Iesu yn datrys y broblem ac yn sicrhau diogelwch y bobl. Yn hytrach na bod y bobl i gyd yn dioddef, byddai'n llawer gwell petai Iesu yn unig yn dioddef yn eu lle.

**Pilat y rhaglaw Rhufeinig**

Yr ail gymeriad yw Pilat a'r awdurdod Rhufeinig. Doedd dim hawl gan yr Iddewon i ddedfrydu neb i farwolaeth dan yr oruchwyliaeth Rufeinig, felly roedd rhaid chwarae'r gêm wleidyddol. Dyma nhw'n cyhuddo'r Iesu o wrthryfel yn erbyn Cesar. Wedi holi Iesu, cafodd Pilat ef yn ddieuog. Gan ddilyn yr arferiad o ryddhau un carcharor adeg yr ŵyl,

> *Atebodd y rhaglaw gan ofyn iddynt, 'Prun o'r ddau a fynnwch i mi ei*

*ryddhau i chwi?' 'Barabbas,' meddent hwy. 'Beth, ynteu, a wnaf â Iesu a elwir y Meseia?' gofynnodd Pilat iddynt. Atebasant i gyd, 'Croeshoelier ef.' ... Yna rhyddhaodd Pilat iddynt Barabbas, a thraddododd Iesu, ar ôl ei fflangellu, i'w groeshoelio. (Matthew 27:21-2, 26)*

Yng ngolwg Pilat, wrth ryddhau Barabbas, roedd yn rhyddhau dyn a gafwyd yn euog o lofruddiaeth ac o wrthryfel. Yn hytrach na chael ei ddienyddio fel yr oedd yn ei haeddu, derbyniodd faddeuant llwyr tra fod Iesu o Nasareth, yr un dieuog, yn cael ei ddedfrydu i farwolaeth.

**Iesu Grist**

Yn olaf felly, beth oedd gan Iesu ei hun i'w ddweud am y Pasg? Roedd e wedi siarad gyda'i ddisgyblion sawl tro am y ffordd y byddai'n marw.

*'Dyma ni'n mynd i fyny i Jerwsalem; fe gaiff Mab y Dyn ei draddodi i'r prif offeiriaid a'r ysgrifenyddion; condemniant ef i farwolaeth, a'i drosglwyddo i'r Cenhedloedd; a gwatwarant ef, a phoeri arno a'i fflangellu a'i ladd, ac wedi tridiau fe atgyfoda ... Oherwydd Mab y Dyn, yntau, ni ddaeth i gael ei wasanaethu ond i wasanaethu, ac i roi ei einioes yn bridwerth dros lawer." (Marc 10:33-4, 45)*

Roedd Iesu ei hun wedi rhagfynegi ei farwolaeth yn union yr un ffordd ag yr oedd Caiaffas a Pilat yn ei gweld hi. Roedd Iesu yn mynd i farw dros y bobl, y dieuog yn cymryd lle'r euog, er mwyn talu'r pris na allen nhw ei dalu. Roedd e'n disgwyl y gwatwar, yr amharch a'r boen.

Ond gwyddai Iesu rywbeth nad oedd ei elynion yn ei ddisgwyl. Ar y trydydd dydd, fe gododd o farwolaeth, yn arwydd bod Duw'r Tad wedi derbyn aberth Iesu Grist yn dâl ddigonol am bechodau ei bobl. Roedd Caiaffas a Pilat wedi gweld rhan fach o'r hyn a oedd yn digwydd, ond roedd yr Arglwydd Iesu Grist yn gwybod y cyfan.

Mae ef yn awr yn galw arnoch chi, y Pasg hwn fel erioed, i'w dderbyn i'ch bywyd, i gredu yn ei enw a phwyso ar yr hyn a wnaeth drosoch, a derbyn maddeuant llwyr am eich pechodau.



# Diarhebion

## *Dewi George*

Efallai nad yw hi'n beth doeth ceisio cyflwyno Llyfr y Diarhebion mewn cyn lleied o eiriau ond dyma roi cynnig arni.

Cofier mai diarhebion am ein bywyd o flaen Duw sydd yma. Rhaid cofio mai Ef sy'n rheoli (16:9,14 a 19:21).Un peth i'w gofio hefyd yw bod y diarhebion yn disgrifio'r hyn sydd *fel arfer* yn digwydd yn nhrefn naturiol pethau – ond nid bob tro. Er enghraifft, nid yw'n addewid dieithriad y bydd 'ofn yr Arglwydd yn estyn dyddiau' a 'blynyddoedd y rhai drygionus yn cael eu byrhau'(10:27). Er hynny, bydd agwedd y person doeth at Dduw yn cael ei hamlygu yn ei arferion call. Welwch chi synnwyr y ddihareb? Mae'r un egwyddor yn berthnasol gyda'r ddihareb adnabyddus ar hyfforddi plant (22:6).

Mae nifer o'r diarhebion yn defnyddio cyferbynnu i bwysleisio'r neges: e.e. 'Y mae'r disynnwyr yn dilorni ei gymydog, ond cadw'n dawel a wna'r deallus' (11:10). (Mae peryglon y tafod a'r gallu i wrando a phwyllo cyn siarad yn amlwg iawn – 18:13). Gall ail hanner rhai o'r diarhebion hyn fod yn annisgwyl, ac oherwydd hynny, yn fwy effeithiol a chofiadwy. Gweler 13:10 er enghraifft.

Dyma ddau gymeriad sy'n personoli'r gwrthwyneb i ddoethineb:

**Y ffŵl**

Mae'n beryglus cwrdd a'r ffŵl. (17:12) Nid diffyg gallu ymenyddol sy'n ei nodweddu, ond yn hytrach ei fethiant i ymatal a disgyblu ei hun, ei eiriau - y 'parablu ffolineb'(15:2), a'i ddiwedd (5:23). Mae gweithredoedd yr ynfyd yn adlewyrchu'r ffaith nad yw'n credu yn Nuw (Salm 14:1); gwell ganddo 'ymddiried ynddo'i hun' (28:26). Nid yw'n gwrando ar gyngor Solomon: 'Ymddiried yn llwyr yn yr Arglwydd, a

phaid â dibynnu ar dy ddeall dy hun. Cydnabydda ef yn dy holl ffyrdd,...' (3:5-7).

**Y diog**

Nid yw'r diog yn cymryd mantais o gyfleoedd; yn hytrach, gwell ganddo gysgu – 'fel y mae drws yn troi ar ei golyn'(*hinges*) (26:14). Ni fydd yn mynd a'r maen i'r wal. Yn wir mae'n 'gwthio'i law i'r ddysgl, ond yn rhy ddiog i'w chodi i'w geg' (25:15). Bydd ganddo esgus bob tro: "Y mae llew y tu allan"(22:13)! I'r gwrthwyneb, byddwn yn ddoeth pan fydd ein hagwedd at waith yn adlewyrchu cymeriad Duw, sydd wedi creu trefn o anrhefn. (3:19,20).

Yn y cyngor i frenhinoedd ar sut i weinyddu cyfiawnder yn ddoeth gwelwn ddymuniad Duw i weld heddwch. Mae'r egwyddorion hynny yn berthnasol i bawb ond hefyd cawn gyngor ar sut i fod yn ddoeth yn benodol gyda:

**Y teulu**

Ceir cyfarwyddyd perthnasol i barau priod ac i blant. Mae rhybuddion cyson rhag godineb yn y saith bennod gyntaf. Dylai'r

priod chwilio am fodlonrwydd o fewn priodas (5:15-19). Mae adran adnabyddus y bennod olaf yn rhestru rhinweddau'r wraig fedrus; i'r gwrthwyneb, 'gwell yw byw mewn congl ar ben ty na rhannu cartref gyda gwraig gecrus'(21:9)! 'Cyfrifoldeb rhiant yw hyfforddi a disgyblu' (22:15, 29:15). O wneud hynny, 'balchder plant yw eu rhieni' (17:6).

**Ffrindiau**

Mae gan y llyfr lawer i'w ddweud am gyfeillgarwch. Bydd arferion ffrindiau yn dylanwadu arnom, felly ni ddylem ddymuno cwmni'r drygionus (24:1, 28:7, 29:3). Ymhlith rhinweddau'r cyfaill da, gallwn restru ei ffyddlondeb (27:10), ei fod yn sensitif (25:17), a'i fod yn gallu maddau (10:12). Bydd ffrind go iawn hefyd yn dweud y gwir gan geisio lles y llall (27:5,6, Ioan 15:13-15).

Gallwn gam-ddehongli'r diarhebion a'u darllen fel rheolau moesol yn unig. Mae mwy na hynny yma. Cyplysir ffyddlondeb i Dduw ac ufudd-dod i'w Gyfraith (28:4,7). Er bod y doeth a'r ffŵl yn marw, mae Llyfr y Diarhebion yn edrych tu hwnt i'r byd hwn wrth ddysgu am ffordd marwolaeth a ffordd bywyd. Gwyddom ar ba ffordd yr ydym arni o ystyried y dewisiadau bach a wnawn bob dydd. Ein byd-olwg sy'n rheoli pob gweithred. Felly, 'yn fwy na dim, edrych ar ôl dy feddwl, oherwydd oddi yno y tardd bywyd' (4:23). Er hynny, pwy sy'n gallu cyrraedd safonau uchel yr un doeth: 'Pwy a all ddweud "Yr wyf wedi puro fy meddwl; yr wyf yn lân o'm pechod?"(20:9) Gan fod Duw 'yn talu i bob un yn ôl ei waith' (24:12), pwy all sefyll o'i flaen? Rhaid cydnabod mai ar ffordd marwolaeth ydym oll wrth natur: 'Ni lwydda'r un sy'n cuddio'i droseddau, ond y mae'r un sy'n cyffesu ac yn cefnu arnynt yn cael trugaredd'(28:13). Rhaid troi i'r Testament Newydd i weld doethineb Duw yn ei gyflawnder ym mywyd Iesu Grist: "Myfi yw'r ffordd a'r gwirionedd a'r bywyd." (Ioan 14:6 a 1 Cor 1:18-24). Ynddiried ynddo yw'r peth doethaf y gallwn wneud.

# Cofio 1811

## *Eifion Evans*

Pa arwyddocâd sydd i'r ffigurau 1811, tybed? Ai camsyniad am 1812 ydyw, i ddynodi symffoni nodedig Tchaikovsky? Neu, efallai mai 1611 a fwriadwyd, i sôn am fersiwn y Beibl Saesneg a gafodd enw'r Brenin Iago, neu 1711 i gofio geni un o bregethwyr mwyaf Cymru, Daniel Rowland o Langeitho? Digon gwir y bu hanes Rowland yn allweddol i'r hyn sy'n gysylltiedig ag 1811, a bydd hyn yn awgrymu mai ymwneud â Methodistiaid Calfinaidd Cymru y byddwn. Yn benodol, ordeiniad cyntaf eu gweinidogion yn y flwyddyn honno sydd dan sylw. Yn ynghlwm wrth hynny, rhaid sôn am y Diwygiad Methodistaidd, a'r dylanwad trwm a gafodd ar safonau bywyd, cymdeithas a diwylliant.

Awn at 1735 i ddechrau, blwyddyn tröedigaeth Rowland a Howel Harris, Trefeca. Fe'u doniwyd i bregethu, i efengylu ac i adeiladu'r dychweledigion mewn modd arbennig. Dyna oedd prif angen y dydd, yn wyneb gwyntoedd oer, bydol Deistiaeth, a wadai Dduw personol gan ddyrchafu rheswm yn hytrach na datguddiad. O ran eglwysi'r wlad yn gyffredinol, prin oedd y pregethu, a phryd hynny moesoldeb ac ymdrech dynol oedd y neges. Eto i gyd, yr oedd rhyw weddill bach ffyddlon a fynnai gredu'r Efengyl a phregethu gras Duw yng Nghrist – Griffith Jones, Llanddowror ac Edmund Jones, Aberystruth yn eu plith. O fewn ychydig daeth eraill i'r bywyd ac i bregethu ymhlith y Methodistiaid: William Williams, Hywel Davies, a Peter Williams. Bu cysylltiad agos rhyngddynt a Methodistiaid Lloegr, yn arbennig George Whitefield a goleddai egwyddorion Calfinaidd fel hwythau. Gwelsant gyfnodau o ddiwygiad, y mwyaf tanbaid ohonynt yn 1762 yn Llangeitho, ac erbyn hynny yr oedd nodweddion gwaith Duw yn eu plith yn eglur.

Yn gyntaf, ganwyd Methodistiaeth mewn diwygiad. Dyma ymyrraeth uniongyrchol, awdurdodol, sofran Duw mewn gallu achubol. Mewn canlyniad bywhawyd pobl Dduw a daeth nifer lluosog o farwolaeth

ysbrydol i ffydd a bywyd yng Nghrist. Daeth pregethu a moddion gras i fri unwaith eto. Yng ngeiriau Williams, Pantycelyn:

> *Gwrando Gair y Bywyd sydd fwy melys na ffair a marchnad. Mae'r chwech dydd gwaith wedi eu troi yn Sabath, ac y mae'r Sabath yn cyrraedd o un pen i'r flwyddyn i'r llall ... gweddïau, pregethau, ac yn enwedig canu mawl i Dduw sy'n datseinio'r wlad.*

Mor wahanol i'r dyddiau diffrwyth, sych, digysur a oedd yn eu blaenori! Gwelwyd addoli bywiol, awchus a ymylai bron ar anhrefn, ac eto'n ddyrchafedig ysbrydol ac yn chwyldroadol o bersonol a pharhaol. Pa ddarpariaeth a oedd yn ddigonol i'r fath lwyddiant, gan fod yr eglwysi'n farwaidd ac yn fydol? Ateb Methodistiaeth oedd pregethu diflino, seiadu disgybledig, a goruchwyliaeth feiblaidd agos ar y cynhaeaf dwyfol hwn. Prin oedd yr adnoddau i gwrdd â'r angen. Ond ni fu Harris yn segur gyda'i deithio pell a'i gynghori tanbaid; a dyna bregethu Rowland a llenydda Williams yn ganllawiau effeithiol i hybu maeth, deall ac aeddfedrwydd y dychweledigion.

Yn ail, un o brif nodweddion y Fethodistiaeth hon oedd pregethu. Yr oedd blys efengylu yn mynnu'r flaenoriaeth, rhyw dân gwefreiddiol yn eu mynwes. Drachefn, yr oedd yr ymwybyddiaeth o dynged dragwyddol eneidiau gwerthfawr yn eu gorfodi i fynd allan i'r priffyrdd a'r caeau, dim ots os gwrthodwyd iddynt lan neu gapel. Nid unrhyw fath o bregethu a'u nodweddai, ond pregethu a ddibynnai ar yr Ysbryd Glân



am eneiniad a llwyddiant. Nid pwyso ar gyraeddiadau addysgol neu hwyl areithiol a wnaethent, ond disgwyl am yr 'awel' ddwyfol i arddel y gwirionedd. Dyma Williams eto, yn sôn am bregethwr lleyg, cofier, nid clerigwr proffesiynol:

*Teimlad oedd ei nerth a'i fywyd,*
*Awel nefoedd oedd ei rym;*
*Heb i'r dwyfol wynt anadlu*
*Fyth ni cherddai ei lestr ddim;*
*Nid oedd rhwyfau yn ei berchen,*
*Ond wrth rym yr awel bur*
*'R oedd e'n dwyn y seintiau trosodd*
*Mewn i'r paradwysaidd dir.*




Ac felly y bu am rai blynyddau.

Yn drydydd, mynnodd y Methodistiaid seiadu, y cyfrwng mwyaf effeithiol yn eu tyb hwy i asesu, didoli a meithrin profiadau ysbrydol. Yn ynghlwm yn y seiat yr oedd trefn a disgyblaeth i osgoi rhagrith a diogelu saint. Ond yr oedd rhan o foddion gras yn eisiau: y sacramentau. Am flynyddoedd, bu'r gweinidogion ordeiniedig yn ddigon i ddiwallu'r angen, er bod y cyfleusterau yn brin. Ac efallai bod llawer yn ystyried darpariaeth y seiat yn ddigon i bob pwrpas. Gyda thyfiant Methodistiaeth, yn ddaearyddol a niferol, daeth y mater yn fwy llosg a phwysig.

Erbyn diwedd y ganrif yr oedd nifer o'r 'tadau' wedi marw. Bellach daeth cenhedlaeth arall o arweinwyr wrth y llyw, Thomas Charles o'r Bala, Dafydd Jones o Lan-gan, a Thomas Jones o Ddinbych yn eu plith. Gwelwyd tyfiant eto, a bendith arbennig ar fudiad Ysgolion Sul Charles. Dros y blynyddoedd yr oedd dilynwyr John a Charles Wesley yn Lloegr

**(parhad ar d. 15)**

# Holi Hwn a Hon

# Gerwy

**Sut y dest ti'n Gristion?**

Rwyf wedi credu bod Duw yn bod ers i mi gofio, ac wedi eisiau dod yn Gristion ers yn ifanc iawn, ond heb ofyn yn iawn i Dduw fy achub tan oeddwn tua 14 oed. Tua'r amser yma sylweddolais fod angen Duw arna i, a gwelais beth fyddai fy nyfodol hebddo. Roeddwn i bob amser yn meddwl nad oeddwn i'n ddigon da i fod yn Gristion, a byddwn i'n dweud wrthyf fy hun, 'Unwaith y bydda i wedi gwella tipyn bach wedyn fe wna i ofyn am achubiaeth.' Parhaodd hyn am dipyn o amser ond doeddwn i ddim yn pechu llai o gwbl.

Un diwrnod pan oeddwn yn siarad gyda Dad, gofynnodd i fi a oeddwn i'n Gristion, ac atebais nad oeddwn. Gofynnodd e a oeddwn eisiau dod yn Gristion ac a oeddwn i'n edifar am fy mhechodau, a dywedais fy mod i. Dywedodd Dad nad oedd dim byd yn fy rhwystro, felly, os oeddwn i o ddifri. Felly gweddïais ar i Dduw ddangos

# n Lewis

i mi pam nad oeddwn yn Gristion. Dangosodd Duw i mi fy mod yn trio dod yn Gristion trwy weithredoedd. Er imi ddeall yn fy meddwl nad trwy weithredoedd y mae person yn dod yn Gristion, doeddwn i ddim wedi sylweddoli o'r blaen fy mod i mewn gwirionedd yn pwyso ar weithredoedd wrth geisio fy ngwella fy hun a bod yn ddigon da i ddod yn Gristion. Dangosodd Duw i mi mai dim ond Fe all achub, trwy'r hyn a wnaeth Iesu Grist ar y groes, a doedd dim byd y gallwn i ei wneud heblaw gofyn iddo ac ymddiried ynddo. Roeddwn yn gwybod nad oeddwn i'n ddigon da ond roeddwn yn credu y gallwn wella ar fy mhen fy hun. Sylweddolais mai dim ond Duw a allai fy newid i, waeth pa mor galed roeddwn yn trio gwneud hynny fy hunan.

**Beth sy'n gymorth i ti yn dy gerddediad ysbrydol?**

Ers mis Medi rwyf wedi bod yn mynd i'r Undeb Cristnogol lle mae myfyrwyr Caerdydd yn cael cyfle i drafod ac astudio'r efengyl. Yn ystod y tymor cyntaf edrychon ni ar 'Pam bu Iesu farw?' ac un peth wnaeth fy nharo i bob tro oedd mawredd gras Duw tuag atom. O ganlyniad i hyn rwyf wedi dod yn ymwybodol o'r angen i rannu'r Gair ac efengylu.

Mae gallu trafod gyda Christnogion eraill wedi bod yn help i mi hefyd. Yn naturiol rwy'n ei chael hi'n anodd dechrau siarad am bethau ysbrydol, ond mae'r Undeb Gristnogol yn gyfle arbennig i wneud hynny.

Roedd darllen y llyfr *Taming the Tiger* am fywyd a thröedigaeth Tony Anthony yn ddiddorol iawn ac yn dangos sut mae Duw yn gallu newid bywyd unrhyw un. Helpodd hyn fi i sylweddoli fod Duw yn gallu achub unrhyw un.

**Beth wyt ti'n hoffi ei wneud yn dy amser hamdden?**

Un o'm problemau mawr yw fy mod i'n tueddu i gael llawer o ddiddordebau ar yr un pryd – ac yn anffodus maent yn aml yn rhai drud! Rwy'n mwynhau chwaraeon anturus ac yn hoffi dringo a syrffio pan ddaw'r cyfle. Ers yn fach rwyf wedi mwynhau gwneud ac adeiladu pethau, felly pan fydd gen i amser rwy'n hoffi gwneud gwaith pren, neu drwsio pethau (er fy mod yn aml yn gwneud y broblem yn waeth!)

**Rwyt ti wedi cymryd blwyddyn gap eleni cyn mynd i'r Brifysgol ym mis Medi. Beth wyt ti wedi bod yn ei wneud gyda dy amser?**

Cymerais flwyddyn allan er mwyn cael y profiad o weithio mewn gwahanol feysydd i'm helpu fy hun i benderfynu ar lwybyr i'r dyfodol. Rwyf wedi cael llawer o gyfleoedd i weithio mewn swyddi gwahanol yn barod. Rwy'n hyfforddwr dringo mewn canolfan ddringo, sydd bob amser yn ddiddorol. Rwyf hefyd wedi cael profiad mewn gwaith llafurio, yn peintio, adeiladu a thrio bod yn handy man. Nawr rwyf ar fin dechrau gweithio fel cymorth dysgu yn Ysgol Bro Eirwg. Mae gweithio gyda phlant bob amser yn ddiddorol ar rwy'n edrych ymlaen at y sialens newydd hon.

**(parhad o d. 11)**

wedi cymeryd y cam o ordeinio'u gweinidogion, a hefyd enwad yr Arglwyddes Huntingdon, y Calfiniaid. Gwelwyd chwyldro yn Ffrainc ac America. Yno, yn America, bu torri'r rhaffau oddi wrth Loegr a'r Eglwys Sefydledig. Eto, cyndyn iawn oedd Charles a Dafydd Jones i symud tuag at y gwahanu y byddai ordeinio yn ei olygu. Ar hyd ei oes buasai Harris yn anfodlon arddel y gair 'Methodist'; arhosodd Rowland o fewn Eglwys Loegr er iddi warafun iddo weinidogaethu, yn gyntaf yn Llanddewibrefi ac yna yn Llangeitho. Gwan fyddai ymlyniad Williams wrth yr Eglwys esgobol gan fod ei wreiddiau o fewn Anghydffurfiaeth, ond glynu a wnaeth yntau.

Pan ofynnwyd i Charles mewn Sasiwn yn 1810, 'Pa un fwyaf – ai pregethu yr efengyl, ai gweinyddu yr ordinhadau o Fedydd a Swper yr Arglwydd?' bu raid iddo ateb, 'Y gorchwyl mwyaf yw pregethu yr efengyl'. Yr oedd lleygwyr eisoes yn pregethu yn eu plith, pam na fyddent hefyd yn gweinyddu'r sacramentau? Yr un flwyddyn, ysgrifennodd Thomas Jones 'Betisiwn am yr Ordinhadau' ac ynddo dywed, 'rhaid edrych arnom ein hunain fel Eglwys Crist a chyffesu mai eglwys allan o drefn ydym.' I bob pwrpas gweithredai'r seiadau fel eglwysi, a nifer cynyddol ohonynt bellach yn cyfarfod mewn adeiladau neilltuedig. Ni fu'r dadleuon hyn yn ddiffrwyth. Cytunwyd i symud ymlaen i ordeinio pregethwyr addas, a gwnaethpwyd hynny mewn Sasiynau yn y Bala ym Mehefin, ac yna yn Llandeilo ym mis Awst, 1811. Yr oedd y Methodistiaid Calfinaidd mwyach yn enwad crefyddol.

Rhaid parchu blaenoriaethau'r Methodistiaid cynnar, a'u hymdrechiddiwygio'rfamEglwys. Yr un pryd rhaid gofyn, sut na ddaethant i ofyn yn gynt, 'beth yw Eglwys?' Mudiad heb hunaniaeth oeddent am bron i ganrif, ond er hynny cawsant o wlith y nefoedd yn aml ac yn doreithiog. Mae'n anodd peidio â dyfalu a fyddai'r gwlith yn ehangach a'r ffrwyth yn ddedwyddach pe byddent wedi cymeryd y cam o ordeinio tipyn yn gynt na'r flwyddyn 1811.

*Llun gyda chaniatâd Ann Gruffydd Rhys*

# Newyddion

**Ymweliad â Haiti**

*Cafodd nifer ohonom y cyfle i glywed Rebecca Jones yn sôn yn yr eglwys am ei hymweliad â Haiti ar ddechrau'r flwyddyn. Rhag ofn eich bod wedi colli hynny, dyma ychydig o'i hanes:*

Es i Haiti am bythefnos ddechrau Ionawr 2011 i weithio mewn clinig *cholera*. Es gyda grwp o bobl gyda'r elusen *Samaritan's Purse* a oedd wedi cyhoeddi eu hangen am wirfoddolwyr.

Mae Haiti yn wlad ar ynys Hispaniola yn y Caribî. Mae'n wlad dlawd iawn, y dlotaf yn yr hemisffer gorllewinol, gyda 70% o'r boblogaeth yn byw ar lai na £1.23 y dydd a 70% o'r bobl yn credu mewn voodoo. Bu i Haiti ddioddef daeargryn ddechrau Ionawr 2010 lle y bu i 220,000 o bobl farw a 1.5 miliwn o bobl golli'u cartrefi. Yna, ym mis Hydref 2010, bu i *cholera* dorri allan, gyda 400,000 o bobl wedi'u heffeithio hyd yn hyn. Mae *cholera* yn effeithio pobl gyda dolur rhydd a chwydu ac yn lladd tua 50% sy'n cael eu heffeithio'n ddifrifol os nad oes ganddynt help meddygol. Yn ffodus, gyda help meddygol, mae'r ffigwr yma'n nes at 1%.

Roeddwn yn rhan o dîm mewn clinig gwledig yn edrych ar ôl pabell ("ward") o rhwng 9 ac 14 o blant ac weithiau yn helpu gyda'r pebyll oedolion. Roedd plant ac oedolion yn dod i'r clinig yn *dehydrated* ac angen sawl diod o ddŵr gyda mesur o halen a siwgr. Os oeddynt yn sâl iawn, bydden nhw yn cael gwely yn y clinig ac yn cael nifer o litrau o hylif arbennig yn cynnwys halen drwy wythïen yn eu breichiau. Roedd yn dda gweld y mwyafrif yn gwella'n gyflym ac yn mynd adref o fewn tridiau. Ond roedd yn drist gweld y tlodi, gyda sawl plentyn wedi dod o gartref plant ac yn mynd yn ôl yno ar ôl gadael y clinig, heb gyflenwad dŵr glân a heb sebon. Roeddent yn ddiolchgar iawn o gael help.

Ces brofiad arbennig, a da oedd cydweithio gyda meddygon a nyrsys o weddill Prydain, yr UDA, Canada, a Haiti, a gweld Duw ar waith drwy fudiad *Samaritan's Purse*. Gweddiaf nawr y bydd Duw yn bendithio pobl Haiti yn uniongyrchol a thrwy elusennau ac yn gwella'r wlad o cholera ac yn ysbrydol.

*Rebecca Jones*

**Lois ym Mhatagonia**

Mae Lois Dafydd bellach wedi gadael Caerdydd ac wedi cyrraedd Patagonia, lle bydd hi'n gweithio i Menter Patagonia yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg. Gobeithio cawn gyfle i gynnwys adroddiad ganddi yn *Cwmpawd* dros y flwyddyn nesaf.

**Dyddiadau i'w cofio:**

Mynnwch air ag Amanda Griffiths os ydych yn awyddus i ddod ar wyliau'r capel ond heb archebu lle eto. Byddwn yng nghanolfan *Haven* ym Mhenfro, Ebrill 28 - 30.

Bydd Cynhadledd Eglwysi'r De eleni'n cael ei chynnal ar ddydd Sadwrn, Mai 7 yn Nhrefeca.

# I'r Dyddiadur

## *Yn ystod yr wythnos...*

**Clwb Hapus Awr** | nos Lun |5.30 - 6.30pm
**Cyfarfod Gweddi** | nos Fawrth | 7.40pm
**Paned a Sgwrs** | bob yn ail fore Mawrth | 10.00am
**Cylch y Plant Bach** | bore Gwener | 10.00 - 11.30am
**Clwb y Bobl Ifainc** | nos Wener | 7.00pm

Cynhelir y gweithgareddau uchod yn adeilad yr eglwys, ar wahan i Glwb Hapus Awr a gynhelir yn Ysgol Gynradd Melin Gruffydd.

## *Ar ddydd Sul...*

Oedfaon am 10am a 6pm yn adeilad yr eglwys. Cynhelir yr Ysgol Sul yn ystod tymhorau'r ysgol (11.45 – 12.30am).

| | | |
|---|---|---|
| *Ebrill* | *3* | *Emyr James* |
| | *10* | *Martin Williams* |
| | *17* | *Gwynn Williams* |
| | *24* | *Trystan Hallam* |
| *Mai* | *1* | *Gwynn Williams* |
| | *8* | *I'w trefnu* |
| | *15* | *Trystan Hallam* |
| | *22* | *I'w trefnu* |
| | *29* | *Andrew Norbury / I'w trefnu* |
| *Mehefin* | *5* | *I'w trefnu* |
| | *12* | *Gwynn Williams / Trystan Hallam* |
| | *19* | *Wyn Hughes* |

**Eglwys Efengylaidd Gymraeg Caerdydd**
**Stryd Rhymni, Cathays, Caerdydd**

**www.cwmpawd.org**